

Gwneud Cais am Grant Henebion

Canllawiau i ymgeiswyr yng Nghymru

1. Cyflwyniad

Gall Henebion amrywio o siambrau claddu Neolithig i adeiladau'r chwyldro diwydiannol. Gall amrywiaeth o ffactorau gael effaith andwyol arnynt ac mae angen gofalu amdanynt er mwyn i'w cyflwr beidio â dirywio. Rydym yn cydnabod y gall gwaith atgyweirio fod yn gostus neu na fydd bod amser o fudd ariannol i berchennog yr heneb. Felly, rydym yn barod i helpu drwy roi grant mewn achosion priodol.

Pa waith sy'n gymwys i gael grant?

Rydym yn ystyried ceisiadau am grant ar gyfer gwaith i ddiogelu, cynnal a chadw a rheoli henebion. Caiff cynlluniau sy'n hwyluso mynediad cyhoeddus i henebion ac yn helpu'r cyhoedd i'w dehongli eu hystyried hefyd. Bydd union natur y gwaith yn amrywio o heneb i heneb, p'un a yw'n gastell cerrig adfeiliedig neu'n heneb maes, megis cloddwaith cynhanesyddol. Ar gyfer strwythurau cerrig, mae'r gwaith yn aml yn cynnwys atgyweirio gwaith cerrig ac atgyfnerthu gwaith maen. Ar gyfer henebion maes, gall gwaith gynnwys cynlluniau i atal erydu ac ailosod glaswellt.

Noder na allwn dalu ceiswyr am eu costau staff eu hunain, fel cyflogau neu gostau teithio a chynhaliaeth.

Os hoffech wneud cais am grant henebion, ond nad ydych yn siŵr sut y dylid gwneud y gwaith arfaethedig, bydd arolygydd henebion rhanbarthol Cadw yn fwy na pharod i gynnig cyngor ar waith a allai fod o fudd i'r heneb. Ceir manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon.

A oes angen cael unrhyw ganiatadau eraill ar gyfer y gwaith hwn?

Os cynigir grant i chi a'ch bod yn ei dderbyn, rhoddir caniatâd heneb gofrestredig i chi yn awtomatig ar gyfer y gwaith. Fodd bynnag, os na chynigir grant i chi, bydd

angen i gais ar wahân i Weinidogion Cymru (drwy Cadw) am ganiatâd heneb gofrestredig gael ei gymeradwyo cyn i'r gwaith ddechrau.

Efallai y bydd angen cael caniatadau eraill hefyd, megis caniatâd cynllunio neu ganiatâd amgylcheddol, gan gyrff megis yr awdurdod cynllunio lleol neu Cyfoeth Naturiol Cymru.

Faint o grant sydd ar gael?

Fel arfer rydym yn cynnig grant sy'n cyfateb i 50 y cant o gost amcangyfrifedig y gwaith arfaethedig. Gellir ystyried rhoi grant sy'n fwy na 50 y cant mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, lle mae angen gwneud gwaith mawr a chostus na fyddai'n cael ei wneud fel arall.

Caiff hawliadau grant eu talu yn unol â chostau gwirioneddol y gwaith a nodir yn y cais, yn seiliedig ar gyflwyno anfonebau a dalwyd neu dystysgrifau sy'n dangos bod yr ymgeisydd neu asiant yr ymgeisydd wedi talu am y gwaith.

Yn achos prosiectau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr, gellir cyfrif gwerth eu hamser fel arian cyfatebol ar gyfer Grant Llywodraeth Cymru.

Sut y caiff y ceisiadau grant eu hasesu?

Caiff ceisiadau grant eu hasesu yn erbyn meini prawf gan gynnwys pa mor angenrheidiol a brys yw'r gwaith, priodoldeb y cynigion, graddfa'r effaith a ddisgwylir, gwerth yr arian cyfatebol a lefel y budd i'r gymuned. Byddem hefyd yn disgwyl mynediad cyhoeddus rhesymol i'r safle. O ganlyniad i adnoddau prin a lefel y galw, ni fydd pob cais am grant yn llwyddiannus.

Rhoddir gwybod am geisiadau llwyddiannus yn ysgrifenedig ac anfonir cynnig grant ffurfiol atoch. Fodd bynnag, ni ddylai unrhyw waith ddechrau nes i'r cynnig grant gael ei dderbyn yn ffurfiol. Byddwn yn darparu adborth ysgrifenedig ar geisiadau aflwyddiannus ar gais.

2. Gwneud eich cais

Pwy all wneud cais am grant henebion?

Gall perchenogion heneb wneud cais am gymorth ariannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn helpu i'w diogelu a'i chynnal a'i chadw. Os nad chi sy'n berchen ar yr heneb ond eich bod am wneud gwaith arni a chyflwyno cais am grant, gallwch wneud hynny, ar yr amod eich bod wedi cael caniatâd ysgrifenedig y perchennog, sy'n cadarnhau ei fod yn fodlon i chi wneud y gwaith a chael grant ar ei ran. Sicrhewch eich bod yn cwblhau adran 5 o'r ffurflen gais am grant henebion yn llawn.

Pryd y caf wybod beth yw canlyniad fy nghais?

Rhoddir gwybod i ymgeiswyr llwyddiannus yn ysgrifenedig ac anfonir cynnig grant ffurfiol atynt. Ni ddylai unrhyw waith ddechrau nes i'r cynnig grant gael ei dderbyn yn ffurfiol. Byddwn yn darparu adborth ysgrifenedig ar geisiadau aflwyddiannus ar gais.

3. Cwblhau eich ffurflen gais

Mae'n rhaid i chi wneud cais am grant henebion ar ffurflen gais y gallwch ei lawrlwytho neu ofyn i ni ei hanfon atoch.

Er mwyn i'ch cais gael ei ystyried, mae'n rhaid i chi gwblhau pob rhan o'r ffurflen sy'n gymwys i'ch cais. Mae'n rhaid i'r ffurflen a gyflwynir gael ei hategu gan y wybodaeth hanfodol ganlynol;

- Manylion y gwaith arfaethedig, gan gynnwys graddluniadau / gweddluniau fel y bo'n briodol. Ar gyfer gwaith mawr bydd angen manyleb fanwl ar gyfer y gwaith arfaethedig.
- Cost amcangyfrifedig y gwaith (gan gynnwys amcanbrisiau ysgrifenedig neu dendrau cystadleuol fel y bo'n briodol)
- Dyddiad dechrau
- Hyd amcangyfrifedig y gwaith
- Y budd i'r gymuned a fydd yn deillio o'r gwaith
- Cadarnhad bod perchennog yr heneb ac unrhyw denant a all fod gan yr heneb wedi'u hysbysu am y cais, os oes angen.

Os na fydd eich cais yn cynnwys yr holl wybodaeth a dogfennaeth hanfodol, ni chaiff ei ystyried a chaiff ei ddychwelyd atoch.

Amcangyfrifon o gost y gwaith sydd i'w gwneud

Mae'n rhaid i geisiadau gynnwys yr amcanbrisiau neu'r tendrau canlynol;

- Mae'n rhaid i geisiadau ar gyfer gwaith yr amcangyfrifir y bydd yn costio cyfanswm o £5,000 neu lai (heb gynnwys TAW) gael eu hategu gan un amcanbris ysgrifenedig;
- Mae'n rhaid i geisiadau ar gyfer gwaith yr amcangyfrifir y bydd yn costio cyfanswm o rhwng £5,001 a £25,000 (heb gynnwys TAW) gael eu hategu gan dri amcanbris ysgrifenedig;
- Ar gyfer geisiadau ar gyfer gwaith yr amcangyfrifir y bydd yn costio mwy na £25,000, dylech geisio o leiaf dri thendr cystadleuol.

Syniad o'r budd i'r gymuned a fydd yn deillio o'r gwaith

Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, disgwylir i henebion sy'n cael grant gan Cadw gael eu hagor i'r cyhoedd ar amserau rhesymol.

Mae buddiannau cymunedol ehangach a all ddeillio o brosiectau cadwraeth yn cynnwys darparu deunydd dehongli, cynnal diwrnodau agored neu gymryd rhan mewn digwyddiadau drysau agored, darparu cyfleoedd hyfforddiant a chynnwys gwirfoddolwyr.

Manyleb a graddluniadau / gweddluniau

Mae'n bwysig rhoi disgrifiad manwl a llawn gwybodaeth o'r gwaith arfaethedig a'i ddiben, fel y gallwn nodi sut yn union y bydd y gwaith arfaethedig yn effeithio ar yr heneb.

Pan gynigir tarfu ar y tir, er enghraifft wrth gloddio sylfeini neu osod gwasanaethau a phibellau tanddaearol, dylai cynllun y cais (arolwg 1/500 yn ddelfrydol) ddangos union linell, lled a dyfnder unrhyw ffosydd. Fodd bynnag, bydd hefyd angen i chi ddangos nad oes unrhyw lwybr na lleoliad amgen ymarferol sy'n osgoi'r heneb, a bod yr angen i wneud y gwaith yn drech na'r rhagdybiaeth o blaid diogelu heneb o bwysigrwydd cenedlaethol.

Ar gyfer gwaith sy'n effeithio ar olion sy'n sefyll, dylid darparu manyleb a graddluniadau neu weddluniau ar raddfa o 1:50 (neu 1:20 ar gyfer manylion penodol) lle y bo'n bosibl, ynghyd â chynllun o'r safle ar raddfa briodol (1:500 fel arfer). Os na fydd unrhyw weddluniau ar gael, dylid darparu ffotograffau o'r rhannau o'r heneb lle y cynigir y dylid gwneud gwaith atgyweirio neu atgyfnerthu.

4. Hawlio arian grant

Pryd y caiff y grant ei dalu?

Fel arfer telir y grant ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau ac ar ôl i ni dderbyn cais am daliad. Mae'n rhaid gwneud ceisiadau am daliad ar ein ffurflen hawlio taliad. Bydd ein harolygydd henebion rhanbarthol yn ymweld â'r heneb ac yn cadarnhau a yw'r gwaith wedi'i wneud i safon foddhaol ac a ellir talu'r grant i chi. Yn achos prosiectau mwy o faint, gellir cyflwyno ceisiadau am daliad interim.

Ym mhob achos, mae'n rhaid i geisiadau am daliad gael eu hategu gan anfonebau a dalwyd neu dystysgrifau sy'n dangos bod yr ymgeisydd neu asiant yr ymgeisydd eisoes wedi talu am y gwaith.

Lle y cytunir ar daliadau interim, caiff deg y cant o'r grant a gynigir ei gadw hyd nes bod archwiliad wedi'i gynnal o'r gwaith a bod y gwaith wedi'i gwblhau i lefel foddhaol. Os na chaiff y gwaith ei wneud yn unol â thelerau'r grant, gellir adennill y grant yn rhannol neu'n gyfan gwbl.

5. Manylion Cyswllt

Sut gallaf wneud cais?

Mae rhagor o wybodaeth a ffurflen cais am grant ar gael i'w lawrlwytho. . Fel arall, cysylltwch â ni'n uniongyrchol:

Drwy e-bost: alex.king@gov.wales neu Leanne.morgan@gov.wales

Drwy ffonio: 03000 256072

Drwy'r post: Gweinyddu Henebion

Cadw

Plas Carew

Uned 5/7 Cefn Coed

Parc Nantgarw

Caerdydd CF15 7QQ